# Cystadleuaeth Pendine-Cerddor Ifanc Cymru 2024

Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaeth Celf a Chymunedau Pendine a BBC Radio Cymru

## Gwobr: £2000 a *Thlws Pendine*

**a gwahoddiad i berfformio datganiad unigol yng Ngŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru 2025**

Mae Cystadleuaeth Cerddor Ifanc Cymru Pendine yn gyfle unigryw i gerddorion ifanc sydd wedi eu geni neu yn byw yng Nghymru i arddangos eu doniau yng Ngŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru; i gael beirniadaeth gan feirniaid enwog byd eang; derbyn adborth arbenigol ar eu perfformiad a pherfformio mewn lleoliad gydag un o'r acwsteg gorau yng Nghymru, Cadeirlan Llanelwy, yn ogystal â chael eu darlledu ar BBC Radio Cymru.

'Rydym yn gystadleuaeth gynhwysol, ac 'rydym yn croesawu ceisiadau gan gerddorion sydd ag anableddau amlwg neu anableddau cudd.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cystadlu, uwch lwythwch fideo neu glip sain o'ch perfformiad ar gyfer **Rownd 1,** ynghyd â'ch ffurflen gais wedi ei chwblhau, a dogfen yn profi eich oedran drwy wefan Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru - nwimf.com **erbyn 5yh ar Medi 6 2024.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Caroline Thomas, Rheolwr yr Ŵyl drwy e-bost caroline@nwimf.com.

- Ni all y perfformiad y byddwch yn ei uwchlwytho fod dim mwy na 5 munud o hyd. Gall fod yn berfformiad o un darn unigol, neu symudiad o ddarn mwy neu raglen fer, dim mwy na 5 munud o hyd.
- Bydd unrhyw fideos a dogfennau profi oed sydd wedi eu uwchlwytho yn cael eu dinistrio wedi'r feirniadaeth.
- Bydd y beirniaid yn dewis perfformwyr, ac yn eu gwahodd drwy e-bost i gymryd rhan yn y gystadleuaeth fyw, **Rownd 2.**
- Bydd cystadleuwyr na chafodd eu dewis i gymryd rhan yn **Rownd 2** hefyd yn cael eu hysbysu o'r canlyniad. Ni fydd adborth pellach yn cael ei roi ar y pwynt yma.

Bydd y gystadleuaeth fyw yng Nghadeirlan Llanelwy yn cael ei rhannu yn ddwy rownd: Rownd 2 yw'r rownd gynderfynol.

- Ar gyfer **Rownd 2 – y rownd gynderfynol**, dewisir uchafswm o **14** cystadleuydd i gystadlu ar nos Fawrth Medi 17 am 6yh.
- Ar gyfer **Rownd 2,** gofynnir i gystadleuwyr berfformio am 5 munud. Gall hyn fod yn un darn unigol, neu symudiad o waith mwy, neu raglen fer, dim mwy na

5 munud o hyd. **Gall** y perfformiad yma fod **yr un** darn(au) a gyflwynwyd ar gyfer y cais ar lein.

- Bydd pob cystadleuydd yn derbyn adborth ysgrifenedig gan bob beirniad.
- Bydd wyth terfynol o Rownd 2 – y rownd gyn derfynol yn cael eu dewis i gystadlu yn Rownd 3 (Y Rownd Derfynol).
- NB: Anogir holl offerynnau heb fod yn orllewinol i ymgeisio.

**Rownd 3 (Y Rownd Derfynol)**
Bydd yr wyth sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol yn cael eu dewis i gystadlu yn **Rownd 3 (Y Rownd Derfynol)** yng Nghadeirlan Llanelwy ar Nos Fercher, Medi 18 am 7yh.

Ar gyfer **Rownd 3,** gofynnir i gystadleuwyr baratoi rhaglen fer rhwng 10 a 15 munud o hyd. Gall hyn fod yn un darn unigol, symudiad unigol neu ddau symudiad o waith mwy, neu ddetholiad o weithiau byrrach. Caniateir ailadrodd gwaith neu weithiau o **Rownd 1 a/neu Rownd 2** yma fel rhan o'r rhaglen.

Yn dilyn **Rownd 3,** gwobrwyir un perfformiwr fel Cerddor Ifanc Cymru Pendine 2024, gan dderbyn siec a thlws.

Ni fydd unrhyw wobr arall yn cael ei chyflwyno.

**Rheolau**

- Mae'r gystadleuaeth yn agored i holl gerddorion sydd wedi eu geni neu yn byw yng Nghymru, neu sydd yn Gymry sydd yn astudio dramor.
- Rhaid i'r holl gerddorion fod **o dan 21 oed ar Ionawr 1 2024** i fod yn gymwys i gystadlu.
- Nodwch nid oes isafswm oed i gystadlu.
- Rhaid i bob cystadleuydd o dan 18 oed fod â rhiant/warchodwraig gyda nhw os ydynt yn llwyddo i gael eu gwahodd i'r rowndiau byw yng Nghadeirlan Llanelwy.
- Ni allwn dderbyn ceisiadau gan enillwyr blaenorol y gystadleuaeth.
- I ymgeisio, mae'n rhaid i chi uwchlwytho fideo neu glip sain o'ch perfformiad, ynghyd â'ch ffurflen gais wedi ei chwblhau, a dogfen yn profi eich oed drwy wefan Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru - nwimf.com - **erbyn 5yh ar Medi 6 2024.**
- Gall tystiolaeth o'ch oedran fod yn gopi o'ch tystysgrif geni, pasbort, trwydded yrru, neu gerdyn adnabod cenedlaethol. ***Peidiwch ag anfon dogfennau gwreiddiol os gwelwch yn dda.***
- Bydd raid i'r holl gerddorion sydd yn cystadlu ddarparu eu cyfeilyddion eu hunain, os oes angen,(*yn Rownd 1,*) Rownd 2 a Rownd 3.
- Nodwch na fydd posib darparu neb i droi tudalennau.
- Nodwch na fydd offerynnau taro yn cael eu darparu. Bydd rhaid i chi ddod a'ch offeryn eich hun.
- Bydd piano maint proffesiynol, ac organ y Gadeirlan yn cael eu darparu.

- Bydd pob cystadleuydd yn cael cyfle i ymarfer yn y Gadeirlan ar y diwrnod, o flaen **Rownd 2 - y rownd gynderfynol** a **Rownd 3 (Y Rownd Derfynol)**
- Rhaid rhoi copïau o'r darnau sydd yn cael eu perfformio gan y cystadleuwyr i'r beirniaid cyn y perfformiad. Gall y rhain fod yn llungopïau. Os ydynt yn llungopïau, byddant yn cael eu dinistrio ar ôl eu defnyddio yn unol â deddf hawlfraint.
- Mae pob cystadleuydd sydd yn cymryd rhan yn **Rownd 3 (Y Rownd Derfynol)**, yn cytuno i gael eu recordio ar gyfer darllediad gan BBC Radio Cymru ar ddyddiad arall, ac yn cytuno i gael eu cyfweld gan BBC Radio Cymru a chyfryngau eraill.
- Ni dderbynnir ceisiadau hwyr.
- Mae penderfyniad y beirniad yn derfynol.

Nodyn: Medi 6 2024

Mae safon yr ymgeiswyr ar gyfer Cerddor Ifanc Pendine y Flwyddyn 2024 yn anhygoel o uchel. Felly, rydym wedi penderfynu uno adrannau 1, 2, 3 a 4 yn un digwyddiad cynderfynol fel y gall yr un beirniaid glywed pob rownd gynderfynol ar yr un noson (Rownd 2).

Mae hyn yn golygu na fydd **digwyddiad** ar ddydd Llun (Medi 16eg). Bydd pob rownd gynderfynol yn cystadlu ar ddydd Mawrth (Medi 17eg) o 6yh yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy.

Bydd aelodau o'r gynulleidfa sydd wedi prynu tocyn ar gyfer dydd Llun  Medi 16eg yn cael opsiwn naill ai newid hyn i docyn ar gyfer dydd Mawrth 17eg neu dderbyn ad-daliad.

Nid yw'r newid hwn yn effeithio ar y **Rownd Derfynol** (Dydd Mercher 18fed o 7yh).